



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:	WG 018/2017	Dyddiad cyhoeddi:	15 / 01M / 2018
Statws:	Er gwybodaeth		
Teitl:	Diwygiadau i Reoliad 37A ac Atodlen 3 o Reoliadau Adeiladu 2010.		
Cyhoeddwyd gan:			
Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu			
Cyfeiriwyd at:		Anfonwch ymlaen at:	
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol Cyngor y Diwydiant Adeiladu Fforwm Personau Cymwys		Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol Aelodau Cynulliad	
Crynodeb:			
Mae'r newidiadau i reoliad 37A (systemau llethu tanau awtomatig) yn estyn y gofyn i gynnwys hostelau, ac eithrio hostelau sy'n darparu llety dros dro i'r rheini sydd fel arfer yn byw mewn lle arall. Mae'r newidiadau i Atodlen 3 yn cynnwys diddymu tri chynllun ac awdurdodi cynllun newydd.			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
Colin Blick - Rheoliadau Adeiladu Swyddfeydd Llywodraeth Cymru Merthyr Tudful CF48 1UZ		Llinell Uniongyrchol: 03000 628144 E-bost: enquiries.brconstruction@Gov.Wales Gwefan: http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?skip=1&lang=cy	

CYFLWYNIAD

1. Rwyf wedi fy nghyfarwyddo gan Weinidogion Cymru i dynnu'ch sylw at Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2017 rhif 1274 (Cy. 296) ("y Rheoliadau Diwygio") a wnaed ar 12 Rhagfyr 2017.
2. Diben y Cylchlythyr hwn yw:
 - tynnu'ch sylw at y diwygiadau canlynol ac esbonio'r newidiadau y maent yn eu gwneud i Reoliadau Adeiladu 2010 (O.S. 2010 rhif 2214)
 - cyhoeddi'r diwygiad i Reoliad 37A(1) (darparu systemau llethu tanau awtomatig)
 - cyhoeddi dirymu'r awdurdodiad a roddwyd i dri chynllun hunanardystio personau cymwys mewn cysylltiad â'r holl fathau o waith y cawsant eu hawdurdodi i'w cyflawni;
 - cyhoeddi awdurdodi cynllun hunanardystio personau cymwys.
3. Mae **Atodiad A** y Cylchlythyr yn dangos yr holl newidiadau ar ffurf tablau i Reoliadau Adeiladu 2010 a wnaed gan O.S. 2017 (Cy. 2906).

CWMPAS

4. Mae'r Cylchlythyr yn gymwys o ran pob gwaith adeiladu a wneir yng Nghymru ac eithrio gwaith adeiladu ar *adeiladau ynni a eithrir*¹ yng Nghymru.

DIWYGIADAU I REOLIAD 37a - SYSTEMAU ATAL TÂN AWTOMATIG

5. Mae'r diwygiad i reoliad 37A yn cyflwyno gofyn i ddarparu systemau llethu tanau awtomatig mewn hostelau, ac eithrio hostelau sy'n darparu llety dros dro i'r rheini sydd fel arfer yn byw mewn lle arall. Daw'r diwygiad i reoliad 37A i rym ar 1 Ebrill 2018.

DIWYGIADAU I ATODLEN 3 - (CYNLLUNIAU HUNANARDYSTIO AC ESEMPTIADAU I'R GOFYN I ROI HYSBYSIAD ADEILADU NEU I ADNEUO CYNLLUNIAU LLAWN)

6. Mae'r rheoliadau diwygio'n diddymu'r awdurdodiad yn Atodlen 3 Rheoliadau Adeiladu 2010 i Benchmark Certification Limited gynnal cynllun hunanardystio personau cymwys mewn cysylltiad â'r holl fathau o waith y cafodd ei awdurdodi i'w cyflawni. Daw'r dirymiad hwn i rym ar 28 Chwefror 2018.

¹ Mae "adeiladau ynni a eithrir" wedi eu diffinio yn yr atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019)

7. Mae'r Rheoliadau Diwygio'n awdurdodi Assure Certification Limited mewn cysylltiad â'r holl fathau o waith a gynhwysir yn Atodlen 3, paragraffau 10 ac 11 o golofn 2. Daw'r awdurdodiad o rym ar 15 Ionawr 2018.
8. Mae'r Rheoliadau Diwygio'n diddymu hefyd yr awdurdodiad yn Atodlen 3 Rheoliadau Adeiladu 2010 i BM Trada Certification Limited gynnal cynlluniau hunanardystio personau cymwys mewn cysylltiad â'r holl fathau o waith y cafodd ei awdurdodi i'w cyflawni. Daw'r dirymiad hwn i rym ar 28 Chwefror 2018.
9. Mae'r Rheoliadau Diwygio'n diddymu hefyd yr awdurdodiad yn Atodlen 3 Rheoliadau Adeiladu 2010 i Network Veka gynnal cynlluniau hunanardystio personau cymwys mewn cysylltiad â'r holl fathau o waith y cafodd ei awdurdodi i'w cyflawni. Daw'r dirymiad hwn i rym ar 15 Ionawr 2018.
10. Mae Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2017 rhif 1274 (Cy.296) i'w gweld yn: <http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2017/1274>

YMHOLIADAU

11. Os oes gennych ymholiadau ynghylch y materion a drafodir yn y Cylchlythyr hwn, cysylltwch â:

Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Llawr cyntaf, Gogledd
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8144
E-bost: enquiries.brconstruction@gov.wales

Yn gywir



François Samuel
Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

Atodiad A

Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) 2017 rhif 1274 (Cy.296)

Mae'r tabl isod yn rhestru'r holl newidiadau a wnaed gan O.S. rhif 1274 (cy.296) i Reoliadau Adeiladu 2010:

O.S. 2010/2214 Rhif y Rheoliad	O.S. 1274 (Cy. 296) Rhif y Rheoliad	Cam Gweithredu
Rheoliad 37A (1) (b)(i)	2 (2)	rhodder "(i) a hostel providing temporary accommodation to those who are ordinarily resident elsewhere;".
Atodlen 3, paragraffau 4, 8, 9, 12, 13, 14 a 15 o golofn 2	2 (3) (a)	Hepgorer Benchmark Certification Limited o'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hawdurdodi i gynnal cynlluniau mewn cysylltiad â gosod systemau gwresogi a dŵr twym, gosodiadau trydan foltedd isel neu foltedd isel iawn sefydlog mewn anheddau, gosodiadau trydan foltedd isel neu foltedd isel iawn sefydlog fel atodiad angenrheidiol i waith arall a gynhelir gan y person cofrestredig neu yn sgil gwaith y person hwnnw, gosod cyfleuster glanweithiol, sinc, basn, bidet, baddon neu gawod sefydlog neu ystafell ymolchi mewn annedd, gosod cyflenwad dŵr oer neu gyflenwad dŵr oer wedi'i feddalu, gosod cyflenwad o ddŵr nad yw'n ddihalog i gyfleuster glanweithiol â dyfais fflysio neu osod system oeri neu system i gynhyrchu trydan neu wres mewn ystafell trwy adnoddau cynhyrchu micro neu adnewyddadwy.
Atodlen 3, paragraffau 10 ac 11 o golofn 2	2 (3) (b) (i)	Cyn BM Trada rhodder "Assure Certification Limited" mewn cysylltiad â'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hawdurdodi i gynnal cynllun hunanardystio personau cymwys ar gyfer amnewid ffenestri, ffenestri to a drysau mewn anheddau ac adeiladau nad ydynt yn anheddau.
Atodlen 3, paragraffau 10 ac 11 o golofn 2	2 (3) (b) (ii)	Yn dileu BM Trada Certification Limited o'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hawdurdodi i gynnal cynllun hunanardystio personau cymwys ar gyfer amnewid ffenestri, ffenestri to a drysau mewn anheddau sy'n bod ac

		adeiladau sy'n bod nad ydynt yn anheddau.
Atodlen 3, paragraffau 10 ac 11 o golofn 2	2(3)(b)(iii)	Yn dileu "Network Veka Limited" o'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hawdurdodi i gynnal cynllun hunanardystio personau cymwys ar gyfer amnewid ffenestri, ffenestri to a drysau mewn anheddau ac adeiladau nad ydynt yn anheddau.